

# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 15/12/2014  
Minutes of the meeting held on Monday evening 15/12/2014

## Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair)	Mr Elfed Jones	Mrs Julia Dobson
Mr Jack Longman	Mrs Marilyn Hughes	Mr Dei Owens
Mrs Carys Davies	Mr Ricky Hughes	

## Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng./Cllr Wil Hughes	Cyng./Cllr Richard O Jones	Cyng./Cllr Aled Morris Jones
-----------------------	----------------------------	------------------------------

## Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk)	Eira Parry (Cyfieithu / Translation)	PCSO Alison Williams
Mr Thomas Tainton	Ms Tina Samples	PC Dylan Roberts
Aelodau eraill o'r gymuned / Other community members		

## Ymddiheuriadau / Apologies:

Mr David Livingstone	Ms Rose Griffiths	Mr Tony Hughes
----------------------	-------------------	----------------

### 1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.  
*Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.*

### 2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cynllunio / Planning - Wil Hughes, Richard Jones  
Wylfa Newydd – Julia Dobson

### 3 Annerchiad Mr Tainton a Ms Samples / Mr Tainton and Ms Samples' Address

Croesawyd Mr Tainton a Ms Samples i'r cyfarfod. Fe ofynnwyd i'r Cadeirydd pam ei fod wedi cysylltu a Mrs Pauline Roberts yn dilyn cwyn bod asbestos ar dir y Cyngor (sydd dan ei gofal). Nodwyd nad oedd y llythyr wedi ei farcio yn gyfrinachol, a bod copi wedi ei ddosbarthu i holl aelodau'r Cyngor. Deallwyd gan Mr Tainton mai Elfed Jones oedd wedi dod a'r materi'w sylw ac wedi dangos lluniau o'r deunydd iddo. Mae'r mater wedi achosi nifer o broblemau rhwng cymdogion yng Nghongl Rhedyn.

Fe nododd Mr Tainton nad oedd yn hapus a'r ffordd y cafodd ei gwynion eu trin gan y Cyngor a'i fod cael ei wneud i edrych fel clwyddgi yn y gwaith papur swyddogol. Fe argymhellwyd ei fod yn cysylltu a'r ombwdsmon os am gwyno ymhellach.

Cafwyd nifer o 'digs' a chyhuddiadau personol wedi eu hanelu at aelodau unigol a daethpwyd a'r drafodaeth i ben.

Fe ymddiheurodd Derek Owen i'r aelodau gan nodi mai dim dyma'r pwnc oedd Mr Tainton wedi ei nodi pan ofynnodd am ganiatad i gael siarad yn y cyfarfod, ac nad oedd yn deg i unigolion cael y ffasiwn gyhuddiadau yn enwedig mewn cyfarfod o'r Cyngor.

*Mr Tainton and Ms Samples were welcomed to the meeting. The Chair was asked why he had contacted Mrs Pauline Roberts following a complaint that there was asbestos on Council land (that is under her care). It was noted that the letter was not marked as confidential, and that copies had been distributed to all Council members. It was understood from Mr Tainton that Mr Elfed Jones had initially brought the matter to his attention, and that he had been shown photos of the alleged asbestos. The matter has caused no end of issues between residents at Gongl Rhedyn.*

*Mr Tainton noted that he was not happy with the way that his complaints had been dealt with by the Council, and that he was being made out to be a liar as far as official paperwork was concerned. It was*

*recommended that he contact the ombudsman should he wish to take the matter further.*

*A number of personal digs and accusations were made and the discussion was brought to a close.*

*Derek Owen apologised to the members, noting that the issues discussed were not the issues for which Mr Tainton had requested permission to talk about, and that it was not fair for any individual to be targeted with such accusations especially at a Council meeting.*

#### **4 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Marilyn Hughes, eiliwyd gan Elfed Jones.

*The minutes were accepted as a true record. Proposed by Marilyn Hughes, seconded by Elfed Jones.*

#### **5 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

##### **5.1 Grwp Cynefin Group**

Bydd ymgynghoriad Grwp Cynefin 16/12/14. Teimlwyd nad oedd wedi ei amseru yn dda, ond ei bod yn bwysig bod prosiect or fath yn gofyn am barn y gymuned leol. Bechod hefyd bod y digwyddiad dim ond tan 6 o'r gloch – ni fydd cyfle i'r rheini sy'n gweithio gallu mynychu. Deallwyd nad oedd unrhyw gynlluniau wedi eu penderfynnu na'u cyflwyno eto a mai dyma'r cam cyntaf i weld beth fyddai barn y gymuned.

*The consultation is to take place 16/12/14. It was felt that the consultation was unfortunately not very well timed, but that it was important to seek the local community's views on such a project. It was also unfortunate that the event was only until 6pm – there will not be an opportunity for those working to attend. It was understood that no plans had been decided upon o'r presented as yet and that this was the first stage of the project to gauge support.*

##### **5.2 Mainc y Cae Chwarae / Play Area Bench**

Mae'r fainc dal i ddisgwyl cael ei thrin / *The bench is still waiting to be repaired.*

##### **5.3 Goleuadau Stryd / Street Lighting**

Fe gadarnhaodd y Clerc bod y Cyngor Sir yn bwriadu gosod y golau yn fuan yn y flwyddyn newydd.

*The Clerk confirmed that the County Council will be citing the light early in the new year.*

##### **5.4 Gwaith Brics / Old Brick Works**

Mae tri pris wedi dod i law erbyn hyn –

Ken Irish £550 + TAW

Hampson Lewis £500 + TAW

Datrys £1250 + TAW (gyda cost ychwanegol os am bobl i ddringo'r simnae)

Fe ofynnwyd sut brofiad oedd gan y cwmnïau o wneud gwaith tebyg cyn gwneud penderfyniad i benodi unrhyw un.

*Three prices have now been received for the work –*

*Ken Irish £550 + VAT*

*Hampson Lewis £500 + VAT*

*Datrys £1250 + VAT (with additional costs if people are required to scale the chimney)*

*The companies' experience of completing such projects was questioned before appointing a contractor for the work.*

##### **5.5 Goleuadau Nadolig / Christmas Lights**

Mae'r goleuadau yn eu lle. Diolchwyd i Horizon am gefnogaeth ariannol, i Alan Phillips ac Alan Ganderton am wneud y gwaith o'u checio a'u gosod ar fyr rybydd, ac i Jack Longman ac Elfed Jones am drefnu'r goeden. Mae Menter y Pentref wedi talu am y goeden, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a hwy i ddiolch.

Bydd mwy o gydweithio y flwyddyn nesaf, gyda gwaith o godi arian yn dechrau'n gynt. Bydd Partneriaeth Cymunedol Cemaes yn arwain gyda chefnogaeth y Cyngor.

*The lights are now in place. Horizon were thanked for their financial support, with thanks also to Alan Phillips and Alan Ganderton for completing the electrical checks and erecting the lights at short notice, and to Jack Longman and Elfed Jones for making arrangements with the tree. Village Venture have paid for the tree and the Clerk was asked to contact them to express the Council's thanks.*

*Next year will see more co-ordination, with the fundraising and arrangements being made sooner. Cemaes Community Partnership will be leading the project with the Council's support.*

## **5.6 Bonc y Môr**

Mae peiriannau wedi bod yn twtio lleoliad posib ar gyfer y meiciau. Bydd Elfed Jones yn trafod a Margaret Wood (Geo Mon) pan fydd yn ymweld yn y flwyddyn newydd. Bydd efallai posib i Bwyllgor y Pentref gwrdd rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i gael gweld y safle yng ngolau dydd.

*Machines have been on site tidying a possible location for the benches. Elfed Jones will discuss with Margaret Wood (Geo Mon) when she is in the area in the new year. It may be possible for the Village Committee to meet on site between Christmas and the New Year in order to see the location in daylight.*

## **5.7 Toiledau / Toilets**

Penderfynnwyd peidio ag agor toiledau'r traeth nes y gwanwyn. Deallwyd bod Elfed Jones wedi bod mewn cysylltiad a'r Cyngor Sir ac eu bod yn fodlon i'r Cyngor Cymuned gadw'r toiledau yn y stryd ar agor a bod yn gyfrifol am y gost o'u glanhau. Deallwyd hefyd bod merched y pentref yn fodlon gwneud y gwaith hynnu am ddim er mwyn cadw'r cyfleustyr ar agor. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a'r Cyngor Sir i gadarnhau eu bod yn fodlon ar trefniant yma.

Bydd angen newid y clo ar y toiled anabl ger y traeth fel na does modd ei ddefnyddio gan nad yw'r cyflenwad dwr ymlaen ar hyn o bryd.

Bydd Dewi Williams yn mynychu cyfarfod Ionawr i drafod y gwahanol opsiynau fydd ar gael i'r Cyngor Cymuned.

*It was decided not to open the beach toilets until the spring. It was understood that Elfed Jones had been in contact with the County Council and that they were happy for the Community Council to keep the street toilets open and to be responsible for the cleaning costs. It was also understood that some of the ladies in the village were happy to do this work free of charge in order to keep the facility open. The Clerk was asked to contact the County Council to confirm that they would be happy with this arrangement.*

*There will be a need to temporarily change the lock on the disabled toilet by the beach so that it is not possible to use it as there is currently no water supply.*

*Dewi Williams is to attend the council's January meeting to discuss the various options available to the Community Council.*

## **6 Nant y Wygyr**

### **6.1 Diweddariad y Grwp Llywio / Steering Group Update**

Cafwyd ddiweddariad gan Julia Dobson ar ran y grwp, deallwyd bod y prosiect yn edrych ar ardal fwy eang o'r dyffryn, ac yn gobeithio datblygu cynllun rheolaeth 5-10 mlynedd er mwyn diogelu bywyd gwylt yr ardal gan gynnwys dyfrgi a salmon. Ar hyn o bryd, mae'r pwyllgor yn ceisio sicrhau arian ar gyfer gwahanol agweddau o'r prosiect.

*Julia Dobson gave an update on behalf of the group; it was understood that the project is looking at a wider area of the valley and hopes to develop a 5-10 year management plan to safeguard wildlife in the area*

*including otters and salmon. At present, the committee are seeking to secure funding towards various aspects of the project.*

## **6.2 Asbestos a Materion Eraill / Asbestos and Other Matters**

Mae nifer o lythrau cyfrinachol wedi eu derbyn gan drigolion yr ardal yn poeni am asbestos posib ar dir yn y dyffryn. Mae Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor Sir wedi eu hysbysu yn ogystal a Chyfoeth Naturiol Cymru.

*A number of confidential letters have been received by local residents concerned with possible asbestos on land in the valley. Environmental Health and National Resources Wales have both been notified.*

## **6.3 Anghydfod Ffiniau / Boundary Dispute**

Fe ddosbarthwyd copiau o lythyr cyfreithiwr Mr Tainton gan Mr Tainton i'r aelodau er gwybodaeth. Nid yw am fynd a'r mater ymhellach. Fe gytynwyd y dylai'r cyfreithwyr gymryd y camau priodol i gloi y mater. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am gostau cyfreithiol gan nad yw'r mater wedi mynd i'r llys.

*Mr Tainton distributed copies of a letter to the Council from his solicitor for information. He will not be taking the dispute any further. It was agreed that the solicitors should take the necessary steps to complete and close the matter. The Council will be responsible for the legal fees as the matter was not resolved in court.*

## **7 Adroddiad PCSO Williams' Report**

Fe ddosbarthwyd manylion cyswllt i bawb oedd yn bresennol er gwybodaeth. Nodwyd bod problemau gyda defaid yn cael eu dwyn yn ardal Tregle, mae hefyd alcohol yn y cae chwarae, a phobl ifanc yn cwrdd ger y poly tunnels ym Maes Cynfor.

Trafodwyd y cynllun OWL ble mae aelodau yn cael gwybodaeth am wahanol droseddau fel y maent yn cael eu cofrestru. Byddai o fudd petai aelodau hefyd yn cael gwybod pan fydd y troseddau wedi eu datrys a'r materion wedi eu cyflawni. Byddai hyn yn rhoi hyder i'r cyhoedd yn y heddlu a'u gwaith.

*Contact details were distributed to all present for information. It was noted that there were recently issues with sheelp being stolen from the Tregle area, there is also alcohol in the play area, and young people congregating by the poly tunnels at Maes Cynfor.*

*The OWL scheme, whereby members are told information with regard to crime in their local area was discussed. It would be of benefit if members were also told when cases are solved / closed as this would instil confidence in the Police and the work that they do.*

## **8 Cyllid / Finance**

### **8.1 Adroddiad y Pwyllgor / Finance Committee Report**

Yn absenoldeb Tony Hughes, cafwyd crynodeb gan Derek Owen o'r cyfarfod diwethaf. Esboniwyd bod yr hysbyseb ar gyfer y cytundebau torri gwair wedi eu dosbarthu er bod angen cadarnhau rhestr o lwybrau. Mae'n debyg bydd y pwyllgor yn cyfarfod dwy waith yn y flwyddyn newydd gan bod angen gosod cyllideb y Cyngor a phenderfynnu ar y briseb cyn y Cyfarfod Llawn fel bod modd adrodd yn ol i'r Cyngor Sir o fewn yr amser priodol. Bydd angen ystyried y gost o redeg dau uned doiledau yn ogystal a chostau eraill ochr yn ochr a'r asesiad risg.

*In the absence of Tony Hughes, Derek Owen gave an overview of the last meeting. It was explained that the advert for the tendering opportunities had been distributed but the list of footpaths was still to be confirmed. The finance committee hope to meet twice in January as there is the need to set the budget for the next financial year and agree on the precept before the next full council meeting in order to meet County Council reporting deadlines. The possibility of running two toilet facilities will need to be considered as well as other costs in line with the risk assessment.*

## 8.2 Taliadau / Payments

Cymeradwywyd y taliad canlynol / the following payment was approved –  
£21.89 Huws Gray (Ceblau / Cables)

## 9 Cynllunio / Planning

### 9.1 Penderfyniadau / Decisions

Cafwyd wybod bod y Cyngor Sir wedi gwneud y penderfyniad canlynol -  
*The County Council confirmed the following decision –*

- Llanlleiana (20C241E) – Caniatad / *Granted*

### 9.2 Ceisiadau / Applications

Roedd dau gais i'w trafod / *There were two applications to discuss.*

- 45 Gwelfor Est – dim gwrthwynebiad / *no objection*
- 16 Maes Capel – dim gwrthwynebiad / *no objection*

## 10 Gohebiaeth / Correspondence

10.1 Cafwyd rybydd gan y Cyngor Sir eu bod yn bwriadu diddymu llwybr cyhoeddus rhif 34. Nid oedd gan yr aelodau wrthwynebiad gan fod y llwybr yn mynd drwy ganol Pen Dibyn, a bod llwybrau eraill gerllaw.

*The County Council have notice of their intent to extinguish footpath number 34. The members did not object to this proposal as the path went through Pen Dibyn and other paths were available in the immediate area.*

10.2 Cafwyd wybod gan y Cyngor Sir eu bod yn bwriadu torri coeden sycamor ger Gongl Rhedyn yn y dyfodol agos yn dilyn cwynion.

*The County Council have stated that they will be felling a sycamore tree adjacent to Gongl Rhedyn in the near future following complaints.*

10.3 Cronfa Padrig – cafwyd gopi o adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr er gwybodaeth.  
*A copy of the annual report is available for information*

10.4 Calonnau Cymru / Welsh Hearts – yn dilyn cyfarfod y pwyllgor cyllid daethpwyd a'r epost at sylw aelodau'r cyngor llawn er gwybodaeth.

*Following the finance committee meeting, the email was brought to the attention of the full council.*

## 11 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

### 11.1 Adroddiad Pier Bach Report

Mae'r Clerc eisioes wedi anfon copi o'r adroddiad i'r holl aelodau er gwybodaeth. Mae Tim Rheoli'r Harbwr eisioes wedi ei drafod ac wedi edrych ar y tri opsiwn sydd wedi eu rhoi ger bron –

- 1) Trin yr pier fel ag y mae £200k
- 2) Trin y pier bach yn iawn £350k
- 3) Dymchwel y pier £65k

Mae'r Tim Rheoli wedi penderfynu ceisio am arian i alluogi'r pier gael ei drin yn iawn. Mae'n bwysig pwysleisio pwysigrwydd y pier bach o safbwynt diogelwch. Cynnigwyd bod cais yn cael ei wneud i Horizon am gefnogaeth. Bydd y pier o ddefnydd i'w gewithwyr, ac o safbwynt diogelwch y gymuned gyda twf yn y boblogaeth.

*The Clerk has already forwarded a copy of the report to all members for information. The Harbour Management Team have already discussed its content and have looked at the three options that have been put forward –*

- 1) *restore the pier £200k*

- 2) fully refurbish and restore the pier £350k
- 3) demolish the pier £65k

*The Harbour Management Team have agreed to apply for funding to enable the pier to be fully refurbished and restored. It is important to emphasise the importance of the pier from a safety perspective. It was suggested that an application is made to Horizon for support. The pier will be of use to their employees, and from a safety perspective to the increasing population in the local community.*

## **11.2 Cronfa Padrig**

Fe ofynnwyd beth oedd yn digwydd gyda arian y gronfa. Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys adroddiad cyllidol, a bod adroddiadau hefyd yn mynd i'r hysbysfyrdd. Bydd efallai posib rhoi adroddiadau rheolaidd yn Llais Cemaes. Os na fydd pobl yn ceisio am yr arian, ni fydd arian yn cael ei ddosbarthu.

*The question was raised as to what is happening with the funds invested in the fund. It was noted that the annual report included the financial statement, and that reports were also regularly displayed in the notice boards. It may be possible to also include regular reports in Cemaes Voice. If no applications for funding are received, no money will be distributed.*

## **11.3 Grwp Defnyddwyr / Port Users Group**

Deallwyd na does gan Tim Rheoli'r Harbwr unrhyw bwerau cyfreithiol ar hyn o bryd ac mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu Awdurdod Harbwr. Mae felly angen sefydlu grwp defnyddwyr (PUG – Port Users' Group) ac fe fydd y cyfarfod agored i sefydlu hwnw nos Lun Ionawr 12 yn y Neuadd Bentref am 7 o'r gloch. Deallwyd bod grwpiau tebyg eisioes yn bodoli yng Ngaergybi ac yn Amlwch ac fe fydd posib rhannu syniadau unwaith bydd y grwp wedi sefydlu.

*It was understood that the Harbour Management Team in their current format do not hold any legal powers for the management of the harbour and as such plans are afoot to develop a Harbour Authority. There is a need to establish a Port Users Group (PUG) and an open meeting to establish this will take place Monday January 12<sup>th</sup> at 7pm at the Village Hall. It was understood that similar PUG groups were already established at Holyhead and Amlwch and that it may be possible to share ideas and experiences once established.*

## **11.4 'Footsteps Through Time'**

Mae gan Geo Mon lyfr wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, ac mae yn hybu ardal Cemaes fel rhan o'u prosiectau. Mae'r llyfr ar gael gan Elfed Jones os oes unrhyw un a diddordeb cael copi.

*Geo Mon have a new book published recently, and it promotes Cemaes and the local area as part of the Geo Mon projects. Copies of the book are available from Elfed Jones should anyone be interested in a copy.*

## **11.5 Cae Chwarae Tregele Play Area**

Mae'r offer yn eu lle a'r cae wedi ei agor yn swyddogol. Fe ddiolchwyd i bawb sydd wedi bod yn ymwneud a'r prosiect ar hyd ei oes. Fe ofynnwyd i'r Clerc ebostio Marian Steele (Cronfa Padrig) gyda copi o'r anfoneb am y gwaith.

*The equipment is now in place and the play area officially opened. All who have been involved with the project from the start were thanked for their support. The Clerk was asked to email Marian Steele (Cronfa Padrig) with a copy of the invoice for the work.*

## **12 Wylfa Newydd**

Diolchwyd i'r Clerc am yr adroddiad yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Nid oedd dim i'w ychwanegu ar hyn o bryd. Bydd cyfarfod a'r cynghorau cymunedol lleol ar y cyd yn fuan.

*The Clerk was thanked for the report following the last meeting. There were no further observations at present. A combined meeting of all local community councils will be arranged in the near future.*

**13**

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Ionawr 19, 2015, am 7 o'r gloch yn y llyfrgell.

*The next meeting will be on Monday evening January 19, 2015 at the library for 7pm.*

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i PC Dylan Roberts a'i dim am eu cefnogaeth parhaus i'r Cyngor a'r gymuned.

*The Chair thanked PC Dylan Roberts and his team for their ongoing support for the Council and the community.*

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 o'r gloch. / *The meeting closed at 8.30pm.*

CET12/2014